

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU (AGIC)

Mae eich preifatrwydd yn bwysig i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fel rhan o Lywodraeth Cymru, ac, yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), rydym wedi datblygu Hysbysiad Preifatrwydd sy'n egluro pam rydym yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth.

A. PWY YDYM NI

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn rhan o Lywodraeth Cymru. Ein gwaith yw rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau'r GIG a darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn erbyn amrediad o safonau, polisiau, canllawiau a rheoliadau er mwyn amlygu meysydd sydd angen eu gwella.

B. YR HYN RYDYM YN EI WNEUD

Arolygu gofal iechyd – Rydym yn arolygu gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod pobl yn derbyn gofal da.

Ymchwilio – Rydym yn cynnal adolygiadau o sefydliadau neu wasanaethau gofal iechyd mewn ymateb i bryderon sy'n codi o ddigwyddiad neu ddigwyddiadau penodol, yn dibynnu ar ba mor ddifrifol a/neu ba mor aml y mae'r digwyddiad yn digwydd.

Cofrestru a rheoleiddio parhaus gwasanaethau cofrestredig – Rydym yn cofrestru ac yn rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd annibynnol.

Y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl – Rydym yn monitro sut y caiff y Ddeddf Iechyd Meddwl ei defnyddio ac yn amddiffyn buddiannau'r bobl hynny y mae eu hawliau wedi'u cyfyngu dan y Ddeddf honno.

Y Gwasanaeth Meddyg Ail Farn Penodedig – Rydym yn gweinyddu'r Gwasanaeth Meddyg Ail Farn Penodedig, sy'n diogelu hawliau cleifion a gedwir o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl sydd naill ai'n gwrthod y driniaeth a ragnodwyd gan y clinigydd cymeradwy neu sy'n cael eu hystyried fel rhai nad ydynt â'r gallu i roi eu caniatâd.

C. PAM YDYM NI'N CASGLU AC YN PROSESU EICH DATA PERSONOL

Mae angen yr wybodaeth y mae AGIC yn ei chasglu, ei defnyddio a'i phrosesu i'n galluogi ni i gyflawni tasgau er budd y cyhoedd ac i gyflawni ein hawdurdod swyddogol. Nodir pam ein bod yn casglu data a'r mathau o wybodaeth bersonol sydd gennym isod:

C.1 Ymchwilio i bryderon a phroblemau diogelu

Mae arnom angen casglu'r data personol canlynol er mwyn ymchwilio i bryder neu broblem ddiogelu:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad
- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost
- dewisiadau iaith a chyfathrebu
- honiadau o gamymddwyn yn y gwaith a honiadau diogelu a cham-drin

Rydym hefyd yn casglu data categori arbennig, megis:

- cofnodion meddygol a chynlluniau gofal a thriniaeth

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu'n fewnol, a dim ond yn cael ei throsglwyddo i swyddogion o fewn adrannau perthnasol y bydd angen iddynt roi eu mewnbwn wrth ymdrin â'ch cwyn a'n hymateb. Gweinyddir a chedwir yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â chwynion ar systemau rheoli cofnodion diogel. Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â chyrrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol pan fydd risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am ddeng mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen ddiwethaf.

C.2 Adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig, gan gynnwys adolygiadau o ddynladdiadau

Er mwyn ymchwilio i ddynladdiad neu farwolaeth mewn carchar a chynnal ymchwiliadau arbennig, mae arnom angen casglu'r data personol canlynol:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad
- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost

- cofnodion heddlu
- euogfarnau
- honiadau o gamymddwyn yn y gwaith

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â chyrrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol pan fydd risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am 15 mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen ddiwethaf.

C.3 Cofrestru a rheoleiddio parhaus gwasanaethau cofrestredig

Er mwyn cofrestru a rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd annibynnol, mae'n ofynnol i ni gasglu'r data personol canlynol am y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad cartref (rheolwr cofrestredig yn unig)
- cyfeiriad busnes
- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost
- dewisiadau iaith a chyfathrebu
- gwybodaeth ariannol (manylion cyfrif banc)
- geiradaon personol/proffesiynol
- euogfarnau

Rydym hefyd yn casglu data categori arbennig, megis:

- hanesion meddygol (geirada meddygol)

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â chyrrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol pan fydd risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am saith mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen ddiwethaf.

C.4 Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Er mwyn cofrestru fel rheolwr cofrestredig neu unigolyn cyfrifol i ddarparu gofal iechyd annibynnol, rhaid i ni gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Er mwyn cwblhau'r gwiriad hwn, mae arnom angen casglu'r data personol canlynol ar ran y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

- enw
- dyddiad geni
- rhyw
- man geni
- cyfeirnod a dyddiad cyhoeddi tystysgrif geni
- cyfeirnod a dyddiad cyhoeddi tystysgrif mabwysiadu

- cyfeirnod a dyddiad cyhoeddi trwydded breswyllo fiometrigr
- rhif a dyddiad cyhoeddi tystysgrif priodas / partneriaeth sifil
- cyfeirnod a dyddiad cyhoeddi cerdyn adnabod Lluoedd Ei Mawrhydi
- cyfeirnod a dyddiad cyhoeddi trwydded arfau
- cyfeiriad e-bost
- rhif ffôn
- rhif yswiriant gwladol
- rhif a dyddiad cyhoeddi trwydded yrru
- rhif pasbort, gan gynnwys cenedligrwydd a'r wlad gyhoeddi
- rhif fetio a gwahardd yr Alban
- cyfeiriad cyfredol (a chyfeiriadau blaenorol yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf)
- dogfennau ariannol a hanes cymdeithasol, e.e. cyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu, cyfriflen cerdyn credyd, trwydded waith neu fisa, ac ati
- euogfarnau

Pan fydd gwiriad wedi'i gwblhau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, byddwn yn dinistrio'r holl wybodaeth bersonol, ac eithrio enw'r unigolyn, rhif tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, dyddiad cyhoeddi ac unrhyw euogfarnau, ar ôl saith mlynedd.

C.5 Cymryd camau gorfodi

Wrth gymryd unrhyw gamau gorfodi, mae'n bosibl y byddwn yn casglu'r data personol canlynol lle bo'n berthnasol/ofynnol:

- enw
- cyfeiriad
- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost
- nodiadau a chofnodion Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol
- datganiadau dioddefwyr
- tystiolaeth a gafwyd yn ddirgel

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda chyrrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol pan fydd risg bosibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am 15 mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen ddiwethaf.

C.6 Arolygu gwasanaethau

Er mwyn cynnal arolygiadau o wasanaethau gofal iechyd, efallai byddwn yn casglu'r data personol canlynol:

- enw'r claf
- dyddiad geni'r claf
- rhyw'r claf
- rhif adnabod y claf
- comisiynydd GIG y gwasanaethau sy'n cael eu darparu
- enwau'r staff
- rolau'r staff
- cofnodion arfarnu staff
- cofnodion goruchwylio staff
- gwiriadau staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- lluniau'r staff
- gwiriadau recriwtio / cyn cyflogi staff, geirdaon
- cymwysterau / cofrestriad gyda chorff proffesiynol, a hanes cyflogaeth

Gallem hefyd gasglu data categori arbennig, megis:

- gwybodaeth am gleifion o gofnodion meddygol a chynlluniau gofal a thriniaeth, gan gynnwys diagnosis, risg, math o fforensig, math o driniaeth a meddyginiaeth
- manylion cadw os yw'n berthnasol
- ethnigrwydd, gan gynnwys anghenion crefyddol/diwylliannol

Mae AGIC yn defnyddio gwybodaeth am gleifion i wneud y canlynol:

- olrhain effeithiolrwydd y gofal y mae'r claf wedi'i dderbyn dros amser
- cyfeirio at unrhyw faterion o ran gofal aneffeithiol neu anniogel wrth adrodd yn ôl i ddarparwyr gofal iechyd

Mae AGIC yn defnyddio gwybodaeth am staff i wneud y canlynol:

- sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogi angenrheidiol wedi'u cyflawni
- gwerthuso a yw'r staff wedi derbyn hyfforddiant a/neu ddatblygiad perthnasol
- cyfeirio at staff, os oes angen, wrth adrodd yn ôl i ddarparwyr gofal iechyd

Byddwn yn rhannu gwybodaeth bersonol gyda chyrrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol pan fydd risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff.

C.7 Hysbysiadau statudol o farwolaeth, absenoldeb heb awdurdod, anaf difrifol, achos o glefyd heintus, honiad o gamymddwyn a cholli rhyddid

Er mwyn ymchwilio i hysbysiadau statudol, efallai byddwn yn casglu'r data personol canlynol:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad
- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost
- enwau'r staff
- rolau'r staff
- cofnodion arfarnu staff
- cofnodion goruchwylio staff
- gwiriadau staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- lluniau'r staff
- gwiriadau recriwtio / cyn cyflogi staff, geirdaon
- cymwysterau / cofrestriad gyda chorff proffesiynol a hanes

cyflogaeth

- cofnodion heddlu
- euogfarnau
- honiadau o gamymddwyn yn y gwaith a honiadau diogelu a cham-drin
- datganiadau dioddefwyr

Gallem hefyd gasglu data categori arbennig, megis:

- hanesion meddygol (geirda meddygol)
- cofnodion meddygol a chynlluniau gofal a thriniaeth
- gwybodaeth am gleifion o gofnodion meddygol a chynlluniau gofal a thriniaeth, gan gynnwys diagnosis, risg, math o fforensig, math o driniaeth a meddyginiaeth

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â chyrrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol pan fydd risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am ddeng mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen ddiwethaf.

C.8 Hysbysiad statudol o ddigwyddiadau Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

Rydym yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2017, er mwyn sicrhau bod cleifion yng Nghymru'n cael eu hamddiffyn pan fyddant yn derbyn triniaeth sy'n gofyn iddynt ddod i gysylltiad ag ymbelydredd Ïoneiddio. Byddwn yn adolygu digwyddiadau y cawn ein hysbysu amdanynt sy'n ymwneud â chleifion a allai fod wedi dod i gysylltiad â mwy o ymbelydredd Ïoneiddio nag y dylent.

Er mwyn ymchwilio i hysbysiadau statudol, efallai byddwn yn casglu'r data personol canlynol:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad
- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost
- enwau'r staff
- rolau'r staff
- cofnodion arfarnu staff
- cofnodion goruchwylio staff
- gwiriadau staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- lluniau'r staff
- gwiriadau recriwtio / cyn cyflogi staff, geirdaon
- cymwysterau / cofrestriad gyda chorff proffesiynol a hanes cyflogaeth
- honiadau o gamymddwyn yn y gwaith a honiadau diogelu a cham-drin

Gallem hefyd gasglu data categori arbennig, megis:

- hanesion meddygol (geirda meddygol)
- cofnodion meddygol a chynlluniau gofal a thriniaeth
- gwybodaeth am gleifion o gofnodion meddygol a chynlluniau gofal a thriniaeth, gan gynnwys diagnosis, risg, math o fforensig, math o driniaeth a meddyginiaeth
- datganiadau dioddefwyr

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â chyrrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol pan fydd risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am ddeng mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen ddiwethaf.

C.9 Cofnod sefydliadol o bob bwrdd iechyd, ymddiriedolaeth y GIG a darparwr annibynnol

Er mwyn cyflawni ein nod o annog gwelliant ym maes gofal iechyd trwy wneud y gwaith cywir ar yr adeg gywir yn y lle cywir, rydym yn penderfynu lle i ganolbwyntio ein gweithgareddau ar sail risg a gwybodaeth. Rydym yn cadw'r data personol canlynol fel rhan o'n cofnodion sefydliadol ar gyfer sefydliadau'r GIG:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad
- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost
- dewisiadau iaith a chyfathrebu
- honiadau o gamymddwyn yn y gwaith a honiadau diogelu a cham-drin

Rydym hefyd yn casglu data categori arbennig, megis:

- cofnodion meddygol a chynlluniau gofal a thriniaeth

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â chyrrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol pan fydd risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am ddeng mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen ddiwethaf.

C.10 Y Gwasanaeth Meddyg Ail Farn Penodedig

Rydym yn gweinyddu'r Gwasanaeth Meddyg Ail Farn Penodedig, sy'n diogelu hawliau cleifion a gedwir o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon, mae arnom angen casglu'r data personol canlynol:

- enw'r claf
- dyddiad geni'r claf
- rhyw'r claf
- cyfeiriad cartref y claf
- cyfeiriad y lleoliad cadw
- dewisiadau iaith a chyfathrebu'r claf
- enw cyswllt y clinigydd
- manylion cyswllt y clinigydd, gan gynnwys rhif ffôn a dewisiadau iaith a chyfathrebu

- yr awdurdod cadw

Rydym hefyd yn casglu data categori arbennig, megis:

- cofnodion meddygol, diagnosis, a chynlluniau gofal a thriniaeth (gan gynnwys dogfennau cyfreithiol, e.e. cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl)
- ethnigrwydd

Byddwn dim ond yn rhannu eich gwybodaeth gyda'r tîm clinigol sy'n gofalu am y claf ac sydd eisoes â mynediad i'r wybodaeth hon yn ôl y gyfraith.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am wyth mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen neu'r ymweliad diwethaf.

C.11 Y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl

Rydym yn monitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ac yn amddiffyn buddiannau'r bobl hynny y mae eu hawliau wedi'u cyfyngu o dan y Ddeddf honno. Er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon, mae'n ofynnol i ni gasglu'r data personol canlynol:

- enw'r claf
- dyddiad geni'r claf
- rhyw'r claf
- cyfeiriad cartref y claf
- cyfeiriad y lleoliad cadw
- dewisiadau iaith a chyfathrebu'r claf
- enw cyswllt y clinigydd
- manylion cyswllt y clinigydd, gan gynnwys rhif ffôn a dewisiadau iaith a chyfathrebu
- yr awdurdod cadw

Rydym hefyd yn casglu data categori arbennig, megis:

- cofnodion meddygol, diagnosis, a chynlluniau gofal a thriniaeth (gan gynnwys dogfennau cyfreithiol, e.e. cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl)
- ethnigrwydd

Byddwn dim ond yn rhannu eich gwybodaeth gyda'r tîm clinigol sy'n gofalu am y claf ac sydd eisoes â mynediad i'r wybodaeth hon yn ôl y gyfraith.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am 25 mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen ddiwethaf.

C.12 Ymateb i ohebiaeth gyffredinol

Er mwyn ymateb i ohebiaeth gyffredinol, byddwn yn cofnodi'r data personol canlynol:

- enw
- cyfeiriad
- cyfeiriad e-bost
- rhif ffôn
- crynodeb o'r ohebiaeth
- dewisiadau iaith

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth, a byddwn yn ei chadw am 12 mis at ddibenion archwilio.

C.13 Trefnu digwyddiadau, cyfarfodydd, digwyddiadau lansio ac ymgynghoriadau

Er mwyn gwahodd unigolion i ddigwyddiadau a chyfarfodydd ac i gymryd rhan mewn digwyddiadau lansio ac ymgynghoriadau, efallai byddwn yn casglu'r data personol canlynol:

- enw
- cyfeiriad e-bost
- cyfeiriad cartref/gwaith
- rhif ffôn
- gofynion deietegol
- hygyrchedd a gofynion arbennig
- dewisiadau iaith a chyfathrebu

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth, a byddwn yn ei chadw dros gyfnod y lansiad/ymgynghoriad hyd oni y bydd y cyfarfod/digwyddiad wedi dod i ben.

D. GYDA PHWY RYDYM YN RHANNU EICH GWYBODAETH

Mae gan AGIC nifer o gytundebau rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau eraill rydym yn gweithio'n agos â nhw. Mae'r cytundebau hyn yn nodi'r rhesymeg ar gyfer rhannu gwybodaeth i gynorthwyo'r sefydliadau i fodloni eu hamcanion statudol cyffredin a chanolbwyntio gweithgareddau priodol. Maen nhw'n cefnogi'r gwaith o lunio rhaglenni gwaith ategol, gan sicrhau bod prosesau clir ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth, risgiau a phryderon. Pan fydd risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff, bydd AGIC yn rhannu gwybodaeth gydag awdurdodau/sefydliadau perthnasol, fel yr heddlu a byrddau diogelu awdurdodau lleol. Bydd AGIC ond yn rhannu eich data personol fel y nodir yn Adran C.

Gallwch weld y cytundebau rhannu gwybodaeth trwy ddewis y ddolen uchod neu ddod o hyd i'r dogfennau ar ein gwefan:

<http://hiw.org.uk/about/workingwithother/mou/?skip=1&lang=cy>

E. EICH HAWLIAU O DAN Y RHEOLIAD DIOGELU DATA CYFFREDINOL (GDPR)

Mae gennych chi'r hawl i'r canlynol:

- Cael mynediad at y data personol y mae AGIC yn ei brosesu amdanoch
- Gofyn i AGIC gywiro anghywirdebau yn y data hwnnw
- Yr hawl (mewn rhai amgylchiadau) i wrthwynebu'r prosesu
- Yr hawl i ofyn i'ch gwybodaeth gael ei dileu
- Lleisio cwyn gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr diogelu data annibynnol

I gael rhagor o wybodaeth am y data sydd gan AGIC a sut mae'n ei ddefnyddio, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y GDPR, cysylltwch â'r canlynol:

Rheolwr Adrannol Hysbysrwydd a Gwybodaeth
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

E-bost: HIW@gov.wales

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: data.protectionofficer@gov.wales

I gael cyngor annibynnol ynghylch y GDPR, cysylltwch â'r canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
WILMSLOW
Cheshire SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: www.ico.gov.uk